

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Tachwedd 2il, 2017 yn brydlon am 7-00 y.h. yn

Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fedi 21ain, 2017 a'r pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu ar Hydref 5ed, 2017.
3. Arwyddo cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd. Dim taliadau BACS i'w cadarnhau mis yma.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned, Rhoslan/Ynys a Gordyfiant o Derfynau Preifat.
 2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned, Lôn Las, Llangybi.
 3. Addysg, Gwasanaeth Adnoddau; Llywodraethwyr Cymunedol ychwanegol Ysgolion Gwynedd – Cyngor Bro a Thref.
 4. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cau'r ffordd Dosbarth III gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Ty'n y Fron, Llangybi, Pwllheli, Gwynedd, gwaharddiad trafniadaeth trwodd dros dro.
 7. Cefnogaeth Gorfforaethol; cyfle i gydweithio gyda hunaniaith ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol yn yr ardal.

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy – dau fater gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans,

1. Wedi cael cais i ni drafod symud arosfa bws y pentref sydd ger Maes Llwyd. (Bws yn mynd i Bwllheli). Eisiau ei symud i'r "layby" gyferbyn a'r maes parcio; mwy o le i'r bws stopio a nes i Gae'r Ffynnon ble mae mwyafrif y teithwyr yn byw.

Hefyd yn gofyn am "shelter" yr ochor yna i'r ffordd.

2. Eisiau gwneud rhywbeth ynglyn a'r ffordd sy'n dod i'r lon ychydig uwch na thro Ty Newydd.

Rhoslan /Ynys

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis – llythyr gan drethdalwr ynghylch cyflwr lloches bws ger Lodge Trallwyn.

Llangybi

8. Gohebiaeth oddi wrth Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru ynghylch yr apêl cynllunio a adferwyd ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig ym Mhen y Ffridd, Bangor.

9. Comisiwn Ffiniau i Gymru; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, Cynigion Diwygiedig.

10. Adroddiad Blynnyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19, adran 13 sydd yn berthnasol i aelodau o gynghorau tref a chymuned; angen sylwadau erbyn Tachwedd 29ain.

Materion Ariannol

11. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

12. Anfonebau angen eu talu:

- a. Criccieth Cleaning Ltd. am ail doriad llwybrau Ynysgain Bach, Tŷ Newydd ac Afonwen, £164.10c + TAW = £196.92c, taliad BACS.
- b. Atkin Groundworks Ltd. am ail doriad llwybr Clawdd Llanw, Bont Fechan, £135- + TAW = £162-, taliad BACS.
- c. Cyngor Gwynedd, Toiledau Cyhoeddus; cyfraniad i Gyngor Gwynedd yn unol â chytundeb darpariaeth toiledau cyhoeddus 2017/2018 Llanystumdwy, £2,000- taliad siec.

It is possible to get an English translation, contact the Clerk